Cylchlythyr Ysgol Terrig postterrig@hwbcymru.net
01352 770235




Annwyl rieni,
Mae'r hanner tymor yma wedi hedfan. Mae 8 wythnos wedi mynd heibio a hynny ar wib!
Hanner tymor nesaf fel a wyddoch bydd Arolygwyr Estyn yn yr ysgol y tridau cyntaf. Bydd cyfarfod i'r rhieni ar y Nos Lun am 3.30 am tua 40 munud. Os ydych eisiau mynychu a neb i warchod eich plant, bydd lle ar gael iddynt mewn dosbarth gyda athro yn eu gorchwylio.

Diwrnod Addysg Gorfforol – sicrhewch bod eich plentyn mewn dillad Addysg Gorfforol ysgol, gan wisgo siwmper ysgol yn unig.
Os bydd diwrnod goedwig bydd hynny yn aros yr un fath, ac i'r plant ddod i'r ysgol y neu dillad goedwig fel ag arfer.
Bydd blwyddyn 3 a 4 yn dechrau gwersi nofio ar Ddydd Mercher ac felly peidiwch ag anghofio eu gwisg nofio.
Mae'r ysgol yn dechrau am 8.50, felly sicrhewch bod eich plentyn yn cyrraedd ar amser.
Tempest – fe roedden i fod i ddod i'r ysgol Dydd Llun Tachwedd 4ydd. Mae'r dyddiad wedi newid i Tachwedd 22ain

## Ein Newyddion
Ar ddechrau'r tymor cafodd plant blwyddyn 5 a 6 y cyfle i gael gwersi beicio. Fe wnaethon nhw gael gwersi i fynd ar y ffordd. Diolch i'r hyfforddwyr am eu hamser.



**Gwyl Aled**

Mae Gwyl Gerdd Dant yn dod i'r Wyddgrug Tachwedd 9ed. Mae'r Wyl eleni er cof am Dr Aled Lloyd Davies. Roedd Aled Lloyd Davies yn ensog yn ei faes Cerdd Dant ac yn byw yn Yr Wyddgrug. Fe fu yn bennaeth ar Ysgol MAes Garmon ac efaillai bod rhai ohonoh yn ei gofio, neu falle eich rhieni chi. Fo oedd fy mhennaeth I tra roeddwn yn Maes Garmon.

Yn bwysicach na hynny Aled Lloyd Davies oedd taid Miss Davies.

I ddathlu'r Wyl yn dod i'r Wyddgrug cafodd blynyddoedd 5 a 6 y cyfle i fynd i Ysgol Glanrafon i ddysgu mwy am yr Wyl. Fe gawson nhw weithdy canu gwerin gyda Ieuan apSion, gweld Eirian Conlon yn canu gyda'r Delyn a gweld Meinir Siencyn yn closcsio. Roedd yn fore hyfryd i ddathlu yr Wyl arbennig hon.

 postterrig@hwbcymru.net



**Eisteddfod Treuddyn**

Diolch i'r rhai ohonoch wnaeth ddod i'r Eisteddfod.  Fe wnaeth nifer o'r plant gystadlu.  Hefyd. Diolch i'r plant hynny wnaeth ddod yn hwyrach yn y nos i ddawnsio i'r Bardd Buddugol.  Roeddech wedi dawnsio yn hyfryd ac yn edrych yn fendigedig yn eich gwisgoedd.



**Cynghorau Ysgol**

Mae'r Cynghorau wedi bod yn brysur yn penderfynu ar eu cynlluniau.  Maent wedi cyfarfod ac mae rhai o'r cynghorau wedi cyflwyno i'r ysgol.








**Diolchgarwch**

Cafwyd gwasanaeth Diochgarwch yn yr ysgol.  Fe wnaeth y plant berfformio eu gwasanaeth yn dda iawn.  Diolch i'r rhai wnaeth gyfrannu tuag at achos FoodBank.  Mae'r bwyd bellach wedi mynd at yr achos.



**Taith i'r Sw**

Aeth blwyddyn 3,4,5 a 6 i Sw Gaer. Roedd y dosbarthiadau wedi bod yn astudio Y Goedwig Law a effaith Palm Oil ar y Goedwig Law. Cafodd y dosbarthiadau weithdai i ddysgu am y effaith y byd ar yr anifeiliaid.














 postterrig@hwbcymru.net

**Creepy Crawlies**

Fel rhan o waith dosbarth Y Jyngl Meithrin a Derbyn fe ddaeth anifeiliaid o'r jyngl I ymweld ar plant.
Cafwyd neidr, malwen fawr, a llawer o anifeiliaid eraill.





**Ymweliad Maes Garmon**
Fel rhan o gynllun pontio Ysgol Maes Garmon fe'u gwahoddwyd i flynyddoedd 5 a 6 ymweld ar ysgol. Fe wnaethon nhw gael hwyl yn cyfarfod athrawon Ysgol Maes Garmon ac yn gwenud gweithgareddau diddorol.





**Pel Droed**
Fel rhan o gynllun Ysgolion Bach fe fu i dim pel droed blwyddyn 5 a 6 fynd i chwarae twrnament Ysgolion Bach. Fe gawson nhw lawer o hwyl ar gae ysgol Ysgol y Waun a diolch i Aura am gynnal y gystadleuaeth.



**Disgo**
Diolch i'r PTA am drefnu disgo arbennig ar gyfer Calan Gaeaf. Mi roedd yn llwyddiannus dros ben. Mi oedd llawer o'r plant wedi gwisgo i fyny fel gwrachod a chathod a monstyrs hyll.

**PC Mark Jones**
Daeth PC Mark Jones o gwmpas y dosbarthiadau yn ystod y tymor. Aeth I weld y plant a thrafod ymddygiad tu allan I'r dosbarth. Roedd y plant wedi gwrando yn hynod o dda. Diolch i PC Mark Jones ar gwasanaeth am roi ei amser i'n ymweld.

**Ffair Lyfrau**
Roedd y Ffair Lyfrau yn hynod o brysur a diolch am ei gefnogi. Rwy'n gobeithio y mae'r plant yn mwynhau y llyfrau ac yn eu darllen. Roedd pawb a oedd wedi prynu llyfryn cael mynediad i'r raffl a fe wnaeth Ada Ac Eliza ennill tocyn £25 – Joiwch y llyfrau genod.
Fe gafodd yr ysgol docyn gwario £250 i wario ar lyfrau Saesneg.
Diolch







**Taith i fferm Swans**
Ar ddiwedd y tymor fe aeth yr ysgol ar wahoddiad y ffermwr Clive Swan i weld y caeau pwmpen. Cafwyd bore braf yn mynd am dro yn yr awyr iach. Diwedd hyfryd i hanner tymor prysur iawn.

 postterrig@hwbcymru.net












SWANS FARM SHOP



Côd QR ar gyfer Llythyrau
QR code for Newsletters

Côd QR ar gyfer Calendar
QR code for Calendar

**Dillad Addysg Gorfforol**
Crys-t gwyn / crys-t Ysgol Terrig neu Crys-t dathlu 70
Siwmper Ysgol
Leggings/joggers/siorts du neu las

Clybiau i ail-ddechrau 11/11/2024
Clybiau ar ôl Ysgol tan 4pm

| Diwrnod /Day | Ar ôl ysgol |
|---|---|
| Dydd Llun / Monday | Chwaraeon blwyddyn 3-6 |
| Dydd Mawrth / Tuesday | |
| Dydd Mercher / Wednesday | Celf blwyddyn 3-6<br>Celf Derbyn 1 a 2 |
| Dydd Iau / Thursday | |
| Dydd Gwener / Friday | |



**Ysgol Iach**
Mae Ysgol Terrig yn Ysgol Iach ac felly dim ond ffrwyth neu lysiau gellir ei gael amser byrbryd bore a diod o ddŵr.
Nid ydym yn caniatau iogwrts, caws nac unrhyw beth arall.

Amser cinio fe gawn nhw unrhyw beth mae nhw eisiau yn eu bocsys bwyd a diodydd blasau eraill





Diolch

Unwaith eto diolch i chi fel rhieni am fod yn gefnogol.